# YDYCH CHI'N EDRYCH AM LEOLIAD TRAMOR?

## Cyfleoedd lleoliad tramor:

- Datblygu agwedd ehangach a rhoi eich sgiliau ar waith.
- Profi diwylliant gwahanol.
- Dysgu neu ymarfer siarad iaith arall.
- Gwneud i'ch CV sefyll allan.
- Gwella eich cyflogadwyedd a'ch sgiliau bywyd.
- Adeiladu rhwydwaith rhyngwladol o weithwyr proffesiynol yn eich maes gwaith ac o'i gwmpas



> "Byddwn yn argymell yn gryf leoliad mewn gwlad arall os yw hynny'n bosibl. Yn ogystal â darganfod mwy am y diwydiant, roeddwn i'n gallu dysgu am ddiwylliant a gwlad arall. Profais bethau anhygoel a chwrdd â llawer o bobl ddiddorol"
>
> Amber, BA (Anrh) Dylunio Ffasiwn

## ADEILADU RHWYDWAITH RHYNGWLADOL



### Gwybodaeth Ddefnyddiol

- Erasmus, efallai y bydd posibilrwydd o wneud cais am gyllid ar gyfer lleoliad dramor trwy'r rhaglen hon: https://advice.southwales.ac.uk/cyngor/a2z/studying-abroad/how-apply-erasmus/
- Gellir gweld cynlluniau gweithio tramor pellach ar ein gwefan Gyrfaoedd: https://careers.southwales.ac.uk/gyrfaoedd/cael-profiad/Cyfleoedd-Byd-eang/
- Ymwelwch â dolen teithio'r Llywodraeth ar gyfer y wlad y byddwch yn ymgymryd â lleoliad ynddi: https://www.gov.uk/browse/abroad

## Blwyddyn rhyngosod dramor

Os ydych chi'n ymgymryd â blwyddyn rhyngosod dramor, gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth am ffioedd yma: https://studentmoney.southwales.ac.uk/tim-cyngor-ariannol-i-fyfyrwyr/cyllid-myfyrwyr-a-chyngor/cyllid-myfyrwyr/lleoliad-neu-astudio-dramor/

Sylwch fod yna achosion lle nad yw myfyrwyr yn gymwys i dderbyn cyllid myfyrwyr i ymgymryd â lleoliad rhyngosod, e.e. os ydych wedi astudio cwrs addysg uwch o'r blaen, wedi ailadrodd blwyddyn, ac ati. Os ydych chi'n credu y gallai hyn fod yn broblem, cysylltwch â'r Tîm Arian Myfyrwyr.

## Pwyntiau i'w hystyried:

Os ydych chi'n bwriadu byw a gweithio y tu allan i'r DU efallai y bydd pethau ychwanegol i'w hystyried, er enghraifft:

- Ble ydych chi'n mynd i fyw, beth fydd cost hynny, a beth yw'r broses ar gyfer sicrhau llety?
- Oes gennych chi sgiliau iaith digonol?
- A fyddwch chi'n gallu cyfathrebu'n rhugl ac yn effeithiol yn y gweithle, mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a bob dydd?
- A oes materion diwylliannol neu arferion lleol i fod yn ymwybodol ohonynt?
- A oes angen fisa neu awdurdodiad arall arnoch i weithio yn y wlad rydych chi'n teithio iddi? Beth yw'r broses a'r gost o gael hynny?
- Gofynnwch i'r cyflogwr a yw eu hyswiriant yn cynnwys atebolrwydd am anafiadau neu salwch a dioddefir gan fyfyrwyr ar leoliad ac sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau gyda'r sefydliad.
- Sicrhewch bolisi yswiriant teithio priodol, ni fydd yswiriant teithio gwyliau yn ddigon. Gweler Canllawiau Iechyd a Diogelwch Myfyrwyr ar gyfer lleoliadau gwaith am fanylion pellach.

## Cytundebau Interniaeth

Ar gyfer lleoliadau/interniaethau mewn rhai gwledydd, e.e. Ffrainc neu Sbaen, bydd angen i chi gwblhau Cytundeb cyn dechrau eich lleoliad. Gelwir y rhain yn Convention de Stage/Convencio de Colaboracion, a gallwch ddod o hyd i dempledi yma: https://careers.southwales.ac.uk/gyrfaeoedd/cael-profiad/Cyfleoedd-Byd-eang/



## Fisâu

Efallai y bydd angen Fisa arnoch i ymgymryd â lleoliad dramor, gall y rhain gymryd 3-4 mis i'w rhoi ar waith ac mae ffi. Cysylltwch â'r tîm Mewnfudo a Chyngor i Fyfyrwyr Rhyngwladol i gael mwy o wybodaeth a chyngor: https://intadvice.southwales.ac.uk/

Sicrhewch eich bod wedi cofrestru'ch lleoliad tramor gyda'r Tîm Lleoliad Gwaith neu'r staff academaidd CYN i chi ddechrau'r lleoliad. Gall y gwiriadau Iechyd a Diogelwch gymryd cryn amser, felly gwnewch yn siŵr eich bod wedi caniatáu ar gyfer hyn. Ewch i: https://careers.southwales.ac.uk/gyrfaeoedd/cael-profiad/lleoliadau-gwaith/canllawiau-iechyd-diogelwch/